

PROFIAD MYFYRIWR GRADDEDIG DAN HYFFORDDIANT



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership



Elena Morris
Myfyriwr Graddedig dan
Hyfforddiant
2019-2021

**Cynllun
Rheolaeth i
Raddedigion**

"Yn 2019, roedd diwedd fy ngradd meistr mewn Hanes Modern Cynnar ym Mhrifysgol Abertawe yn agosáu. Doedd gen i ddim syniad beth i'w wneud nesaf. Fel llawer o bobl, pan fues i'n meddwl am y GIG, roeddwn i'n meddwl ar unwaith am weithwyr meddygol proffesiynol ac oherwydd fy mod yn ofni nodwyddau, ni feddyliais erioed y byddwn yn gweithio i'r GIG. Wrth chwilio am swydd, des i ar draws y Cynllun Rheoli i Raddedigion ac ar ôl gwneud rhywfaint o waith ymchwil, penderfynais wneud cais, gan restru PCGC fel fy newis cyntaf yn y GIG.

Yn dilyn cyflwyno cais ysgrifenedig, mynd i ganolfan asesu a chyfres o gyfweiliadau, er mawr syndod i mi, llwyddais i gael swydd ochr yn ochr ag ymgeisydd arall, Oliver Rix. Am y 6 wythnos gyntaf, cychwynnon ni ar daith sefydliadol 6 wythnos o hyd, a gofynnwyd i mi ar fy niwrnod cyntaf un *'ble ydych chi am orffen erbyn diwedd y cynllun?'*

Y gwir amdani oedd, ni allwn ateb y cwestiwn hwn. I mi, roedd y cynllun yn ffordd o ddod o hyd i fy hun yn y byd proffesiynol, i ddeall fy niddordebau, cael amrywiaeth o brofiadau, magu hyder, gwneud camgymeriadau, dysgu oddi wrthynt, ac i ddatblygu!

Dros y ddwy flynedd a hanner nesaf, fe wnaeth pob lleoliad a phrosiect a roddwyd i mi fy ngalluogi i fagu hyder, datblygu sgiliau newydd a deall y sefydliad ac ein gwerth. Ymysg y gwahanol wasanaethau y bues i'n cwblhau lleoliadau gwaith â nhw oedd Pobl a Datblygu Sefydliadol, Caffael, y Gwasanaeth Negesydd Iechyd a'r Gadwyn Gyflenwi, Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cyflogaeth. Ym phob lleoliad, bues i'n gweithio gyda phobl anhygoel ac angerddol lle'r oedd parch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr. Gofynnwyd i mi bob amser *'beth ydych chi am ei gyflawni yn y lleoliad hwn?'* a phan roddais fy ateb (a oedd yn wahanol bob tro), gwnaed popeth i'm cefnogi a sicrhau fy mod yn cyflawni'r hyn yr oeddwn i a'r gwasanaeth ei angen.

Rwy'n teimlo'n ffodus iawn i ddweud bod y profiad wedi fy ngalluogi i ddod o hyd i fy ngwir ddiddordeb a llwybr gyrfa ar gyfer y dyfodol. Ym mis Medi 2020, dychwelais i'r brifysgol i astudio cymhwyster ôl-raddedig mewn Rheoli Adnoddau Dynol. Ym mis Mai 2021, llwyddais i gael rôl parhaol yn y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol fel Swyddog Datblygu Sefydliadol newydd. Bues i'n cefnogi'r tîm yn y rôl hon drwy hwyluso digwyddiadau, rhaglenni, mentrau newydd a phrosiectau corfforaethol.

Erbyn Gorffennaf 2022, roeddwn wedi graddio gyda Rhagoriaeth mewn Rheoli Adnoddau Dynol ac yn fuan wedi hynny, gwnes gais am swydd Hwylusydd Arbenigol Datblygu Sefydliadol ar gyfer Ehangu Mynediad o fewn y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol. Roeddwn wrth fy modd i gael fy mhenodi. Rwy'n sicr na fyddai'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl pe na bawn wedi cymryd rhan yn y Cynllun Rheoli i Raddedigion. Rhoddodd y profiad yr hyder, y profiad a'r sgiliau i mi allu gwneud cais a bod yn llwyddiannus.

Edrychaf ymlaen at barhau â'm datblygiad personol a phroffesiynol yn PCGC ac rwy'n gyffrous i weld beth fydd yn dod yn y dyfodol.

Os ydych chi'n darllen hwn fel hyfforddai Graddedig newydd neu bresennol yn PCGC, fy nghyngor i fyddai achub ar bob cyfle a ddaw i chi fel profiad a chyfle dysgu unigryw. Mwynhewch bob munud a pheidiwch ag ofni gwrthio'ch hun, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu y byddwch yn gwneud camgymeriadau o bryd i'w gilydd."



Grando a Dysgu



Cymryd Cyfrifoldeb



Gweithio Gyda'n Gilydd



Arloesi

Gwerthoedd craidd PCGC